



# Newsletter

**Greener Aberystwyth Group**

[www.aber-gag.org.uk](http://www.aber-gag.org.uk)

## Air pollution, traffic, and trees




Street trees can dramatically reduce our exposure, in the house and outside, to particulate matter (PM for short) – the fine particles which are emitted by traffic, particularly diesel engines, and which are estimated to be responsible for 29,000 deaths each year. The BBC TV programme *Trust Me I'm A Doctor* recently showed an experiment in Lancaster where small trees were planted in front of four houses. The result was a 50-60% reduction of the PM found in the four houses.

More details on the BBC website:

<http://www.bbc.co.uk/programmes/p01gd9c/features/pollutionexperiment>

## GAG AGM – November 13



Our Annual General Meeting will take place on **November 13** in the Octagon, St Paul's at 7.30pm. Guest Speaker Jon Hadlow will give a talk on **Coed Aber: the story so far**. More than 100 trees have already been planted along Aberystwyth's main approach road, and more are to come. Phase 2 starts with the Park & Ride car park. Want to know more? Come and find out.

## PNP wins award

Congratulations to Parc Natur Penglais upon winning a Green Flag Community Award for the third time. The scheme aims to raise the standards of parks and green spaces in Wales.

**No. 13 November 2013**

Editor: Laurie Wright

## Treezilla

Treezilla is a Citizen Science project launched by the Open University and partners. It is a database representing Britain's tree legacy and future, and enables scientific investigations into tree diseases, their contribution to the ecosystem, and how climate change affects tree growth and health. Treezilla also calculates and displays an evaluation of the monetary value of the ecosystem services that trees provide. These include capturing carbon dioxide (CO<sub>2</sub>), reducing flood risk, reducing energy use by buildings and improving air quality in cities.

The Treezilla website ([www.treezilla.org](http://www.treezilla.org)) is free and open to individuals, local groups and local authorities to upload data whether a 'favourite tree' or inventories.

## Mill Street Development

GAG has surveyed the trees likely to be lost from the area of the present car park and the adjoining part of Park Avenue. The data has been entered onto the Treezilla site and maps and spreadsheet of the GAG survey have been sent to the CCC Planning Department as part of a letter assessing the Mill Street development, pointing out that it prevents completion of the Coed Aber project and asking for mitigation for the tree loss.

## Tree gift from twin town



A service tree which was given to Aberystwyth by the twin town Kronberg has been planted in the centre of the new rope maze in North Road. The service tree (*sorbus domestica*) is a typical tree of the Kronberg area.

## GAG Newsletters by post

We send some copies of the newsletter by post to some members who do not have an email address. This is a costly process. We suspect that some recipients have moved away, others may now have email. In future we will continue posting copies only to those people who wish to receive them in this way and who have no email or access to our website ([www.abergag.org.uk](http://www.abergag.org.uk)). So please let us know if you still wish to have your Newsletter in the post.

# Cylchlythyr



Rhifyn 13 Tachwedd 2013

Golygydd: Laurie Wright


## Difwyniad yr awyr, traffig, a choed



Mae coed yn ein strydoedd yn gallu lleihau faint o ronynnau mân (*particulate matter* neu *PM*) sy'n cyrraedd ein hysgyfaint. Traffig, a moduron diesel yn arbennig, sy'n gyfrifol am y PM. Amcangyfrifir fod PM yn achosi 29,000 o farwolaethau bob blwyddyn. Mewn rhaglen deledu ddiweddar yn y gyfres *Trust Me I'm A Doctor* dangoswyd arbrawf yn Lancaster lle plannwyd coed bach o flaen 4 tŷ. Fel canlyniad, cafwyd gostyngiad o 50-60% yn y PM yn y tai hynny. Rhagor o fanylion ar wefan y BBC:

<http://www.bbc.co.uk/programmes/p01dgd9c/features/pollutionexperiment>

## Cyfarfod blynnyddol GAG – Tachwedd 13



Cynhelir ein cyfarfod blynnyddol ar nos Fercher 13 Tachwedd yn yr Octagon, St Paul's am 7.30pm. Bydd y gŵr gwadd Jon Hadlow yn siarad am **Coed Aber: yr hanes hyd yma**. Mae dros 100 o goed wedi cael eu plannu yn barod ar hyd prif fynedfa Aberystwyth. Mae rhagor i ddod. Bydd Rhan 2 yn dechrau gyda maes parcio'r "Park & Ride". Eisiau gwybod mwy? Dewch i wrando.

## Gwobr arall i PNP

Llongyfarchiadau i Barc Natur Penglais am ennill Gwobr Gymdeithasol Baner Werdd am yr trydydd tro. Bwriad y cynllun yw codi safonau a mannau gwyrdd yng Nghymru.

## Grŵp Aberystwyth Gwyrdach

[www.aber-gag.org.uk](http://www.aber-gag.org.uk)

## Treezilla

Prosiect wedi'i lansio gan y Brifysgol Agored a'i phartneriaid yw Treezilla: crona ddata am etifeddiaeth a dyfodol coed Prydain. Mae'n gwneud hi'n bosibl i ymchwilio heintiau coed, eu cyfraniad i'r ecosistem, a'r ffordd mae'r hinsawdd yn effeithio ar dyfiant a iechyd coed. Mae Treezilla hefyd yn amcangyfrif gwerth ariannol cyfraniad pob coeden i'r ecosistem, gan gynnwys dal deuocsid carbon (CO<sub>2</sub>), lleihau perygl llifogydd, lleihau'r ynni mae adeiladau yn ei ddefnyddio, a gwella safon awyr dinasoedd.

Mae wefan Treezilla ([www.treezilla.org](http://www.treezilla.org)) ar gael am ddim i unigolion, grwpiau lleol ac awdurdodau lleol i gyfrannu data, boed 'hoff goeden' neu restri ffeithiau.

## Datblygiad Mill Street

Gwnaeth GAG arolwg o'r coed fydd yn cael eu collii yn y maes parcio ac yn rhan yma o Goedlan y Parc. Cofnodwyd y data yn wefan Treezilla, ac anfonwyd mapiau a taenlennu o'r arolwg i Adran Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion, fel rhan o lythyr sy'n asesu datblygiad Mill Street. Tynnwyd sylw at y ffaith ei fod yn gwneud hi'n amhosibl i gwblhau'r brosiect Coed Aber, a gofynnwyd am fesurau i ail-blannu coed yn lle'r rhai a gollir.

## Rhodd coeden gan chwaerdref



Mae cerddinen (*service tree - sorbus domestica*) a roddwyd i Aberystwyth gan ei chwaerdref Kronberg wedi cael ei phlannu yng nghanol y drysni rhaffau newydd yn Ffordd y Gogledd. Mae cerddinen yn nodweddadol o goed ardal Kronberg.

## Cylchlythyr GAG trwy'r post

Rydym yn postio copïau o'r Cylchlythyr at rai aelodau sydd heb gyfeiriad e-bost. Mae'r broses yn gostus. Rydym yn amau bod rhai aelodau wedi symud tŷ, a bod eraill wedi cael e-bost erbyn hyn. O hyn ymlaen, ni fyddwn yn postio copïau ond i'r rhai sy'n dymuno eu caelyn y ffordd yma, ac sy'n methu defnyddio e-bost neu wefan GAG (<http://www.aber-gag.org.uk>). Felly, gadewch i ni wybod os dymunwch gael eich Cylchlythyr trwy'r post.